

Digimap for Schools

Helpa Drysor

Paula Owens

Adnodd Dysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap ar gyfer Adnoddau Daeryddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

Teitl: Helfa Drysor

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Darllen mapiau	Enghreifftiau yn cynnwys Kendal yn Cumbria, Tyddewi yn Sir Benfro a Norwich yn Norfolk, ond mae'n bosibl gweithredu'r syniad yn unrhyw le.

Gwybodaeth	Darllen a dilyn cyfarwyddiadau ar fapiau / gwybod bod cyfeirnodau grid yn cael eu defnyddio i adnabod lleoliadau / defnyddio'r offeryn cyfeirnodau grid / defnyddio pwyntiau cardinal pedwar ac wyth.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Defnyddio wyth pwynt y cwmpawd, cyfeirnodau grid pedwar rhif, symbolau ac allwedd (gan gynnwys defnyddio mapiau'r Arolwg Ordnans) i ddatblygu eu gwybodaeth o'r Deyrnas Unedig.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Adnabod a dod o hyd i leoedd gan ddefnyddio mapiau, dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio mapiau.
Cwricwlwm yr Alban dros Ragoniaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd: 2-13a, 2-14a

Gweithgaredd

Bydd y disgyblion yn defnyddio cliwiau a roddir iddynt i ddilyn cyfarwyddiadau ar fapiau a dod o hyd i ble mae'r 'trysor' wedi'i guddio. Wedyn, bydd y disgyblion yn creu helfa drysor eu hunain.

Cyflwyniad

Mae helfeydd trysor yn hwyl i blant ac yn gymorth iddynt ddarllen a defnyddio mapiau gyda mwy o hyder. Mae *Digimap for Schools* yn cynnig mapiau ar ystod o raddfeydd ac mae'r mapiau mwyaf yn fanwl iawn. Mae hynny'n helpu'r disgyblion i wella o ran adnabod nodweddion ar fap wrth iddynt ddysgu sut i fynd ar deithiau cerdded 'rhithiol' trwy'r tirlun.

Ar hyn o bryd, mae disgwyl i ddisgyblion o'r oedran hwn ddeall a defnyddio cyfesurynnau pedwar rhif. Mae'r gweithgaredd hwn yn cynorthwyo disgyblion i ddefnyddio cyfeirnodau grid mewn ffordd ddigymell a hwyl. Mae'n bosibl gwneud y gweithgaredd hwn yn y dosbarth ond mae'n cysylltu'n effeithiol iawn gyda gwaith maes yn y gymdogaeth, lle mae'r disgyblion yn gallu ymchwilio a chynllunio'u llwybrau eu hunain, ac mae hwn yn weithgaredd dilynol delfrydol.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

Mae yna ddewis o dri gorchwyl 'Trysor Cyfrinachol'. Mae gan bob llwybr 'god cyfrinachol' i ddod o hyd i'r dechrau, ar ffurf cyfeirnodau grid. Bydd y disgyblion yn gweithio ar eu pennau eu hunain, neu gyda phartner, i ddarllen y cliwiau a dilyn y llwybr ar y map. Mae angen iddynt feddwl yn ofalus am gyfeiriad y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin ar fap.

Tasgau

1. Y disgyblion i ddarllen y gorchwyl trysor cyfrinachol. Ar ôl iddynt agor *Digimap for Schools*, bydd angen mewnbynnu'r cod cyfrinachol (cyfeirnod grid) i'r blwch pori a chwilio'r map sy'n ymddangos am y lle sy'n rhan o gliw 1.
2. Dylai dilyn y cliwiau eu harwain at y trysor; byddant yn clicio ar y map lle maen nhw'n credu ei fod wedi'i leoli ac yn nodi'r cyfeirnod grid.

(Os yw rhai o'r disgyblion yn barod ac yn gallu ceisio defnyddio cyfeirnodau grid wyth rhif, gallwch fod yn hael a gadael ychydig o wahaniaeth rhwng y rhif olaf a'r ateb a roddir).

Mynd ymhellach

- Gofynnwch i'r disgyblion greu map i ddangos y llwybr at y trysor maen nhw newydd ei ddilyn. Mae'n bosibl iddynt wneud hyn trwy anodi'r map gan ddefnyddio offer *Digimap* neu trwy ddarlunio fersiwn lawrydd a dylunio symbolau eu hunain.
- Gofynnwch i'r disgyblion greu helpa drysor ddirgel gan ddefnyddio'r un fformat.
- Defnyddiwch yr un man cychwyn a gorffen a ddefnyddiwyd yn yr helpa drysor ond dewch o hyd i lwybr gwahanol a'i ddisgrifio gan ddefnyddio cliwiau.
- Gwnewch waith maes yn eich cymdogaeth gan ddefnyddio mapiau ac adnabod lleoliadau da ar gyfer yr helpa. Yn ôl yn y dosbarth, dyfeisiwch ac ysgrifennwch gliwiau ar gyfer llwybrau'r helpa. Defnyddiwch ffotograffau o'r ardal leol a mapiau wedi'u darlunio â llaw. Gallech geisio gwerthu'r gweithgareddau helpa drysor hyn i gerddwyr, twristiaid a rhieni.

Gall rhai disgyblion weithio all-lein i ddatrys y cliwiau, gan ddefnyddio map wedi'i argraffu sy'n dangos ardal y cyfeirir ati yn un o'r dirgelion Helpa Trysor. Byddai mapiau A3 yn gweithio orau, er bod modd defnyddio mapiau A4 yn ogystal. Sicrhewch fod y swyddogaeth '*grid enabled*' ymlaen cyn argraffu'r map. Argraffwch allwedd map addas hefyd.

Dolenni

- Cwestiynau cyffredin y Grid Cenedlaethol <http://www.ordnancesurvey.co.uk/support/the-national-grid.html>
- Canllaw rhyngweithiol i ddefnyddio cyfeirnodau grid
- <http://mapzone.ordnancesurvey.co.uk/mapzone/homeworkhelp.html>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Atebion Helfa Trysor

Dirgelwch Kendal	Dechrau	NY 2800 2391	Diwedd NY 2644 2451
Cleddyf Cyfrinachol Tyddewi	Dechrau	SM 7517 2543	Diwedd SM 7633 2395
Llyfr Gwybodaeth Norwich	Dechrau	TG 2423 0929	Diwedd TG 2318 0852



© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrwydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Gweithgaredd – Helfa Drysor

Enw _____

Cliwiau map trysor: Dirgelwch Kendal

Mae rysâit werthfawr a hudolus am gacen fintys Kendal wedi mynd ar goll. Yr unig beth sydd ar ôl i'ch helpu chi i ddod o hyd iddi yw'r cliwiau hyn. Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r rysâit?

Dechrau: trowch eich troslun grid ymlaen a mewnbynnwch y cod cyfrinachol hwn yn y blwch pori:



Cliwiau

1. Rydych chi ar ddiwedd Forge Lane. Ewch i'r dwyrain tan eich bod yn cwrdd â chyffordd Penrith Road ac yna ewch i'r gorllewin ar Penrith Road a dilyn y ffordd i Calvert's Bridge. Croeswch yr afon. Beth yw enw'r afon rydych chi newydd ei chroesi?
2. Ewch i'r gogledd tan i chi gyrraedd fferm gyda'r un enw a'r afon.
3. O'r fferm hon, ewch i'r gorllewin ar draws y caeau tan eich bod yn cyrraedd lôn gydag enw sy'n eich atgoffa chi o fwyta. Rydych chi ger cyffordd.
4. Trowch i'r gorllewin ar y gyffordd a chadw i fynd tan i chi ddod o hyd i le sy'n gofalu am bobl sâl.
5. Nawr, anelwch i'r gogledd tuag at y gylchfan. Croeswch y gylchfan a pharhau i fynd i'r gogledd gan edrych am faes carafanau.
6. Mae'r rysâit yn y maes carafanau, wedi'i chuddio yn y garafán bellaf i'r de. Dewch o hyd i gyfeirnod grid y lleoliad hwn trwy glicio ar yr offeryn cyfeirnod grid ac yna clicio ar y garafán. Nodwch y rhif.

Ateb _____

Gweithgareddau pellach

- Pam na wnewch chi dynnu map eich hun o'r lleoliad hwn? Un ai crëwch fap digidol gan ddefnyddio *Digimap for Schools* neu tynnwch y map gyda llaw.
- Crëwch eich dirgelwch map trysor eich hun ac ysgrifennu cliwiau eich hun.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Enw _____

Cliwiau map trysor: Cleddyf Cyfrinachol Tyddewi

Amser maith yn ôl, collwyd cleddyf hud hynafol yn Nhyddewi. Ond nawr, rydym wedi dod o hyd i gliwiau. Ydych chi'n gallu defnyddio'r map i ddod o hyd i'r cleddyf?

Dechrau: trowch eich troslun grid ymlaen a mewnbynnwch y cod cyfrinachol hwn yn y blwch pori: **SM75172543**.



1. Rydych chi mewn eglwys gadeiriol hardd iawn. Rydych chi eisiau edrych o'ch cwmpas ond does dim amser! Ewch i'r Stryd Fawr mor gyflym ag y gallwch.
2. Ewch i'r dwyrain ar hyd y Stryd Fawr, heibio i orsaf yr heddlu a heibio i'r gwesty tan eich bod yn cyrraedd croesfan a maes parcio.
3. Trowch i'r dde wrth y groesfan ac anelu tua'r de ar hyd y ffordd hon. Cadwch i fynd tan eich bod yn cyrraedd rhywle ble mae pobl yn gwersylla.
4. Byddwch yn ofalus! Rydych chi'n agos at chwarel! Dewch o hyd i lwybr ar hyd y clogwyn a'i ddilyn o amgylch y bae i'r dwyrain. Mae yna draeth tywodlyd a cherrig mawrion oddi tanoch - peidiwch â chwmpo!
5. Cadwch i fynd ar hyd llwybr y clogwyn, i'r de tuag at y pentir, lle'r oedd yna safle aneddfa hynafol.
6. Cadwch i fynd a pheidiwch â stopio i edrych ar y bwa naturiol ar hyd y daith! Rhaid i chi ddod o hyd i ogof ar bwynt mwyaf deheuol y pentir ac abseilio i lawr y clogwyni ato. Mae'r cleddyf wedi'i guddio yn yr ogof. Dewch o hyd i gyfeirnod grid y lleoliad hwn trwy glicio ar yr offeryn cyfeirnod grid ac yna clicio ar yr ogof. Nodwch y rhif.

Ateb _____

Gweithgareddau pellach

- Pam na wnewch chi dynnu map eich hun o'r lleoliad hwn? Un ai crëwch fap digidol gan ddefnyddio *Digimap for Schools* neu tynnwch y map gyda llaw.
- Crëwch eich dirgelwch map trysor eich hun ac ysgrifennu cliwiau eich hun.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Enw _____

Cliwiau map trysor: Llyfr Gwybodaeth Norwich

Hen chwedl yw Llyfr Gwybodaeth Norwich. Yn ôl y chwedl, os dewch o hyd i Lyfr Gwybodaeth Norwich byddwch yn gallu cael yr ateb i unrhyw gwestiwn yn y byd. Ond nid oes neb wedi gweld y llyfr ers cannoedd o flynyddoedd. Ydych chi'n gallu dod o hyd iddo?

Dechrau: trowch eich troslun grid ymlaen a mewnbynnwch y cod cyfrinachol hwn yn y blwch pori: **TG24230929**.



1. Bydd eich gorchwyl yn dechrau ar fryn wedi'i enwi ar ôl sant enwog. Ond nid oes gennych amser i edmygu'r olygfa! Rhaid i chi ddod o hyd i'r ffordd fydd yn eich arwain at yr orsaf heddlu agosaf ger y gylchfan.
2. Ar ôl cyrraedd yr orsaf heddlu, edrychwch am yr Afon Wensum – sydd i'r de-orllewin ond rhaid bod yn ofalus wrth groesi'r ffordd!
3. Dilynwch yr afon i'r de tan eich bod yn gweld yr orsaf drenau a gorsaf heddlu arall. Cyn yr orsaf, mae yna bont, lle byddwch yn dod o hyd i ffordd frenhinol.
4. Ewch i'r gorllewin ar hyd y ffordd hon am oddeutu hanner cilometr tan eich bod yn cyrraedd adfeilion adeilad lle mae'n debygol fod brenhinoedd wedi aros yn y gorffennol.
5. Mae yna amgueddfa ar y safle hwn ond nid ydynt yn gwybod bod Llyfr Gwybodaeth Norwich wedi'i guddio ar y silffoedd llyfrau! Cliciwch ar y nodwedd hon i gael y cod cyfrinachol. Defnyddiwch yr offeryn cyfeirnod grid, cliciwch a nodwch y rhif.

Ateb: _____

Gweithgareddau pellach

- Pam na wnewch chi dynnu map eich hun o'r lleoliad hwn? Un ai crëwch fap digidol gan ddefnyddio *Digimap for Schools* neu tynnwch y map gyda llaw.
- Crëwch eich dirgelwch map trysor eich hun ac ysgrifennu cliwiau eich hun.